

Taflen Wybodaeth Benthyciad Gwella Cartrefi



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i helpu pobl i helpu eu hunain

Conwy County, the right environment to help people help themselves

Benthyciad Gwella Cartrefi

Mae Benthyciad Gwella Cartref yn fenthyciad heb log sy'n cael eu gynnig gan y Cyngor, i berchnogion cartrefi, landlordiaid preifat, elusennau neu ddatblygwyr sy'n dymuno gwneud gwelliannau i'w heiddo i'w wneud yn gynnes ac yn ddiogel. Mae enghreiffiau o waith cymwys yn cynnwys:

- Gwaith trydan
- Atgyweirio'r to neu osod to newydd
- Cegin ac ystafell ymolchi
- Gwaith ar yr ardd os nad yw'n ddiogel
- Gwaith i ddatrys problem tamprwydd yn yr eiddo
- Gwelliannau Arbed Ynni, megis boeler newydd neu insiwleiddio.

Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn.

Ffeithiau Allweddol:

- Mae'r rhaid i'r eiddo fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd.
- Mae'r math hwn o gymorth yn amodol.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr basio asesiad fforddiadwyedd i fod yn gymwys am fenthyciad.
- Y swm benthycia lleiaf yw £1,000. Yr uchafswm yw £35,000 fesul eiddo.
- Mae'r benthyciad yn ddi-log.
- Mae ffi weinyddol o £500.
- Mae'r holl fenthyciadau yn cael eu sicrhau fel arwystl cyntaf ac ail arwystl yn erbyn teitl y Gofrestrfa Tir.
- Nid all y benthyciad a gynigir a morgais yr eiddo fod dros 80% o werth yr eiddo gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu, os yw gwerth eich eiddo'n £100,000, ac mae'r morgais yn £75,000, gallwn fenthycia uchafswm o £5,000 i chi. Efallai y byddwn yn gofyn am brisiad RICS fel tystiolaeth o werth yr eiddo.
- Os nad yw'r benthyciad yn talu am gost lawn y gwaith, yna byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth o sut byddwch yn talu am weddill y gost.
- Ni all gwaith gychwyn hyd nes bydd yr asesiad fforddiadwyedd wedi ei gwblhau a'r ffi wedi ei ddiogelu'n erbyn yr eiddo.

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn derbyn ceisiadau newydd ar gyfer y cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi. Os ydych am i ni gysylltu â chi pan fyddwn yn cychwyn derbyn ceisiadau, cysylltwch â ni:

- Ar y ffôn - 01492 576274 / 01492 574235
- Ar e-bost housingstrategy@conwy.gov.uk
- Ysgrifennwch atom ni – Y Strategaeth Tai, Blwch Post 1, LL30 9GN

Y Broses Ymgeisio

Cam Un: Cwblhau ffurflen Datganiad o Ddiddordeb.

I wneud cais ar gyfer Benthyciad Gwella Cartrefi, bydd angen i chi gwblhau ffurflen datganiad o ddiddordeb. Wrth gwblhau'r ffurflen bydd cwestiynau am fanylion yr eiddo, gan gynnwys pa waith sydd angen ei wneud.

Mae ffurflenni sydd wedi cael eu cwblhau yn cael eu hanfon i'r Tîm Strategaeth Tai gan gynnwys lluniau o'r eiddo fel tystiolaeth o'r gwaith y gwneid cais amdano.

Bydd y Tîm Strategaeth Tai yn adolygu'r wybodaeth y cyflwynoch ac yn ysgrifennu atoch i gadarnhau a all eich cais symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

Cam dau: Ymgeisydd i gwblhau ffurflen Cais am Fenthyciad.

Bydd eich cais yn symud ymlaen i gam dau os yw'r gwaith a restrwyd gennych yn y ffurflen datganiad o ddiddordeb yn gymwys dan y meini prawf 'cynnes, saff a diogel' a bod lluniau wedi cael ei ddarparu gennych fel tystiolaeth.

Wrth gwblhau'r ffurflen gais am fenthyciad, bydd gofyn i chi gyflenwi rhagor o wybodaeth fanwl, gan gynnwys gwybodaeth ariannol i'n caniatáu i gwblhau asesiad ariannol. Bydd angen dogfennau ategol ar y cam hwn, megis; tystiolaeth o hunaniaeth, prawf o incwm. Byddwch yn cael eich cynghori ar ba ddogfennaeth sydd ei angen gan y Swyddog sy'n prosesu eich cais.

Mae ffurflenni sydd wedi'u cwblhau yn cael eu hanfon i'r Tîm Strategaeth Tai sy'n cynnwys dau ddyfynbris ar gyfer y gwaith gwelliannau rydych yn eu cynnal dan y cynllun.

Cam 3: Asesiad Ariannol

Mae'r asesiad ariannol yn asesiad o'ch incwm a'ch gwariant i sicrhau bod y benthyciad rydych yn gwneud cais amdano'n fforddiadwy i chi. Bydd hyn yn cynnwys ymchwiliad i statws eich credyd hefyd.

Cam 4: Cynnig o Fenthyciad

Byddwch yn cael cynnig benthyciad os ydych chi'n pasio'r asesiad fforddiadwyedd. Bydd eich cynnig o fenthyciad yn cynnwys eich ffigwr ad-dalu misol.

Unwaith rydych wedi arwyddo a chyflwyno eich ffurflenni bydd ffi yn cael ei ddiogelu yn erbyn eich eiddo. Pan mae hyn wedi cael ei gwblhau, byddwch yn derbyn llythyr i gadarnhau bod y benthyciad yn ddilys.

Pan mae eich benthyciad yn cael ei dalu i chi, gallwch ddechrau'r gwaith.

Cam 5: Taliadau

Gellir gwneud taliadau mewn camau ac/neu ar ôl cwblhau'r gwaith.

I wneud taliad, byddwn yn gofyn i chi anfon anfoneb gyda 'cais am ffurflen daliad'.

Unwaith mae'r taliad terfynol wedi cael ei wneud bydd swyddog o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymweld â'r eiddo ac yn cymryd lluniau o'r gwaith.

Beth sy'n digwydd os ydw i'n newid fy meddwl ac yn canslo'r cais am fenthyciad?

Gallwch ganslo eich cais am fenthyciad unrhyw bryd.

Nodwch, os ydych chi'n canslo eich cais pan gytunwyd ar fenthyciad ac mae ffi ar yr eiddo, byddwn yn codi ffi weinyddol a ffi'r gofrestrfa tir.

Os yw'r benthyciad wedi cael tynnu unrhyw arian, yna bydd angen talu ffi ad-dalu.

Manylion cyswllt y Tîm Strategaeth Tai

Cysylltwch â ni:

- Dros y ffôn ar 01492 576274 / 574235
- Ar e-bost - housingstrategy@conwy.gov.uk
- Ysgrifennwch atom ni – Y Strategaeth Tai, Blwch Post 1, LL30 9GN